



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council



STRATEGAETH IAITH GYMRAEG 2022-2027

Cynnwys

Rhagair	3
Cefndir.....	4
Pam Strategaeth Iaith Gymraeg?	4
Data Iaith Cyfredol	5
Cyd-destun Polisi	5-7
Gweledigaeth	7
Prif Darged	7
Partneriaeth	7
Plant a Phobl Ifanc.....	8
Y Gymuned	8-9
Y Gweithlu:	9
Atodiadau	10-14
Atodiad 1 - Camau i Gefnogi Strategaeth Iaith Gymraeg Pum Mlynedd 2017-2022	10-11
Atodiad 2 - Partneriaid Allweddol	12-14



Rhagair

Bydd y Strategaeth Iaith Gymraeg hon yn rhedeg o fis Gorffennaf 2022 tan fis Mehefin 2027. Prif ffocws y Strategaeth hon yw datblygu defnydd a gwelededd y Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Wrth ganolbwyntio ar hyn, rhaid darllen y Strategaeth ochr yn ochr â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor, gan fod y ddau gynllun yn gydffiniol ac mae gweithredoedd un yn cefnogi'r llall.

Mae'r Strategaeth hon yn uchelgeisiol ac nid ydym yn ymddiheuro am hyn. Mae gan Ferthyr Tudful hanes balch o dreftadaeth a diwylliant ac yn y gorffennol mae ganddi gymuned Gymraeg gref iawn. Ein gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn ddyddiol ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Rydym yn falch o Fenter Iaith Merthyr Tudful a'i ffocws ar y celfyddydau a diwylliant yn Theatr Soar ac rydym yn edrych ymlaen at weld digwyddiadau unwaith eto'n cael eu cynnal yno yn y dyfodol.

Dros oes y Strategaeth hon, ein nod yw cefnogi uchelgeisiau targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a bydd gweithredoedd y Strategaeth hon yn gwneud llawer i gefnogi hynny.

Y CYNGHORYDD MICHELLE SYMONDS
PENCAMPWR Y GYMRAEG



Cefndir

Dyma'r ail Strategaeth Iaith Gymraeg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Mae'n gosod y blaenoriaethau ar gyfer hwyluso a hyrwyddo'r Gymraeg ym Merthyr Tudful ymhlith ac ar draws yr holl bartneriaid. Ceir crynodeb o'r camau a gymerwyd fel rhan o'r Strategaeth flaenorol yn Atodiad 1.

Mae'r sefyllfa ariannol bresennol a wynebwr gan bob awdurdod lleol yn golygu y bydd cyflawni canlyniadau'r SIG hon yn heriol, ond mae hefyd yn cynnig cyfleoedd da a sylfeini cadarn i greu partneriaethau newydd a chryfach, a fydd yn helpu'r Gymraeg i ffynnu ar draws ein Bwrdeistref Sirol. Nid yw'r Strategaeth hon yn un ar gyfer y Cyngor yn unig - ni all un sefydliad ei chyflawni - mae'n wir ymrwymiad partneriaeth. Cydnabyddir gan y Cyngor, ac yn wir gan y partneriaid eu hunain, mai dim ond drwy weithio mewn partneriaeth y gellir cyflawni llwyddiant y Strategaeth; gweithio mewn partneriaeth rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus; rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat ac addysg; ond, yn bwysicaf oll, gyda phobl Merthyr Tudful. Bydd y partneriaethau cryf hyn yn arddangos y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ogystal â chreu cyfleoedd newydd i bobl gymdeithasu, cymryd rhan a mynegi eu hunain mewn awyrgylch ddwyieithog.

Mae'r twf arfaethedig mewn addysg cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful yn ogystal â'r ffocws cynyddol ar gontinwwm iaith Gymraeg ym mhob ysgol yn golygu y gall mwy o'n plant a'n pobl ifanc ddod yn oedolion dwyieithog hyderus. Dylai pob plentyn, p'un a ydynt yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg, adael yr ysgol gyda sgiliau Cymraeg. Bydd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2022-2032 y Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o hwyluso'r twf mewn addysg Gymraeg, yn ogystal â gwella safonau'r Gymraeg ar draws lleoliadau addysg yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynlluniau gweithredu sylfaenol ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg (SIG) hon ac ar gyfer y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cael eu cysylltu'n llawn er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno'r gweithgareddau gyda'i gilydd i sicrhau'r effaith fwyaf wrth i ni anelu at gynyddu nifer y plant a'r rhieni sy'n dysgu ac yn siarad Cymraeg ac yn cael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiâu'r ysgol.

Pam Strategaeth Iaith Gymraeg?

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar sefydliadau penodol, i gydymffurfio â safonau mewn perthynas â'r Gymraeg, drwy is-ddeddfwriaeth (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015). Mae'r safonau a roddwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, a restrir yn 'Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful – Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011', yn cynnwys:

Safon 145

Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) – (a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a (b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).



Data Iaith Cyfredol

- Yn y cyfrifiad, a gynhaliwyd yn 2011, nifer y siaradwyr Cymraeg oedd 5,532 neu 8.9%, mae'r data hwn yn destun newid yn dilyn cyfrifiad 2021 food bynnag ar yr amser cyhoeddi'r dogfen yma nid yw y data eto yn cyhoeddus. ¹—
- Ar 31^{ain} Rhagfyr 2021, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, nifer y bobl a allai siarad Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol oedd 12,600 neu 19.5%²
- Ar 31^{ain} Rhagfyr 2021, yn ôl yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth, gallai 14.8% o'r boblogaeth ddarllen Cymraeg, gallai 13.5% ysgrifennu yn Gymraeg, a gallai 21.6% ddeall Cymraeg llafar.³
- Ar 31^{ain} Rhagfyr 2020, amllder nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Merthyr Tudful yn ddyddiol oedd 8.1% ⁴
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae nifer y plant sy'n trosglwyddo o leoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi amrywio o 57.1% i 79.3%⁵
- O'r boblogaeth ysgol gynradd gyfan mae 13.3% yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg gyda thua 97% o'r rhain yn trosglwyddo i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol⁶
- Yn 2020/2021, roedd 75 o bobl ar draws Merthyr Tudful yn cael mynediad i ddosbarthiadau dysgwyr Cymraeg drwy Ddysgu Cymraeg Morgannwg⁷

Cyd-destun Polisi

Cenedlaethol

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015

O 30 Mawrth 2016, mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ddyletswydd statudol i gydymffurfio â safonau rheoleiddio newydd yn y Gymraeg sy'n esbonio sut y dylent fel sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

¹ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census>

² <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/annualpopulationsurveyestimatesofpersonsaged3andoverwhosaytheycanspeakwelsh-by-localauthority-measure>

³ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/welsh-skills-by-la>

⁴ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Annual-Population-Survey-Welsh-Language/welshfrequency-by-la-year>

⁵ Ffynhonnell: Mewnol

⁶ Ffynhonnell: Mewnol

⁷ Ffynhonnell: Dysgu Cymraeg Morgannwg



Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd y Ddeddf yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig. Un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Cymraeg 2050 (2017)

Mae'r strategaeth uchelgeisiol hon yn galw am filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r her o gyflawni hyn yn galw am newidiadau pellgyrhaeddol ledled Cymru, nid ym Merthyr Tudful yn unig. Mae angen gwrthio ffiniau a chymryd camau uchelgeisiol i alluogi mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg.

Mwy Na Geiriau (2016)

'Mwy na Geiriau' yw fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau Cymraeg ym maes iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau llesiant cadarnhaol i unigolion, rhywbeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Codau Ymarfer o dan y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg yn cael eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau a bod gwasanaethau'n cael eu cynnig yn Gymraeg, i siaradwyr Cymraeg, heb iddynt orfod gofyn amdano fel sy'n ofynnol gan y 'Cynnig Gweithredol'.

Rhanbarthol

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Ddeddf yn gwneud i'r holl gyrff cyhoeddus dan sylw feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ceisio atal problemau a chymryd agwedd fwy cydgysylltiedig tuag at ei waith. Ein nod cyffredinol yw i Gwm Taf gyfrannu at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru.

Lleol

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 2021 - 2022

Mae pedair thema i ddogfen Ffocws y Cyngor ar y Dyfodol, i'w chynnwys;

- Dechrau Gorau
- Bywyd Gwaith
- Llesiant Amgylcheddol
- Byw yn Dda

Disgwylir i'r ddogfen gael ei hadnewyddu ym mis Mawrth 2022 a bydd cyfeiriad at y Cynllun newydd yn cael ei amlinellu pan gyhoeddir y SIG.

Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful - Cynllun Strategol 10 Mlynedd Medi 2022 – Medi 2032

Nod y Cynllun pellgyrhaeddol hwn yw 'Parhau i dyfu cyfleoedd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gefnogi teuluoedd a gweithwyr proffesiynol i ddatblygu eu sgiliau yn y defnydd o'r Gymraeg fel eu bod yn fwy hyderus i ddefnyddio'r iaith lle bynnag y maent.'



Strategaeth Codi Cyrhaeddiad Codi Safonau (2021-2026)

Lansiodd Adran Ddysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Strategaeth Codi Cyrhaeddiad Codi Safonau yn 2021. Yn gysylltiedig â hyn mae gwella safonau ar gyfer addysg Gymraeg, o enedigaeth i fod yn oedolyn. Un o'i nodau yw darparu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd anffurfiol drwy weithio gyda phartneriaid iaith Gymraeg ym Merthyr Tudful.

Cynlluniau Eraill y Cyngor

Bydd pwysigrwydd hyrwyddo a chefnogi'r defnydd ehangach o'r Gymraeg yn cael ei adlewyrchu ym mhob prif gynllun adrannol o fewn y Cyngor e.e. Cynllun Cyfarthfa.

Gweledigaeth

Merthyr Tudful: #Shwmaeronment - Bwrdeistref Sirol lle mae'r Gymraeg yn cael ei chlywed, ei siarad a'i dathlu ym mhobman, waeth beth yw'r cefndir.

Prif Darged

Cynyddu amllder nifer y bobl sy'n siarad Cymraeg ym Merthyr Tudful yn ddyddiol i o leiaf 10%.

Bydd uchelgeisiau'r Strategaeth yn cael eu hystyried o dan dri nod strategol sy'n seiliedig ar thema gyffredinol Partneriaeth. Y tri nod strategol yw:

- mae gan blant a phobl ifanc ddigon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg bob dydd;
- Mae Merthyr Tudful yn Fwrdeistref Sirol sydd â'r Gymraeg fel rhan annatod o'i gweithgareddau cymdeithasol a dinesig; a
- mae cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ar draws yr holl weithluoedd.

Er hwylustod darllen, crynhoir y rhain fel a ganlyn:

- Plant a Phobl Ifanc
- Cymuned a Theulu
- Y Gweithlu

Partneriaeth

Fel Bwrdeistref Sirol, mae llwyddiant gweledigaeth y Strategaeth iaith Gymraeg bum mlynedd yn dibynnu ar gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeiliaid (gweler Atodiad 2). Bydd Fforwm Iaith Gymraeg Merthyr Tudful - Fforwm Sirol Merthyr Tudful, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o bartneriaid iaith Gymraeg Merthyr Tudful, yn ymgymryd â rôl allweddol wrth weithredu a monitro'r strategaeth hon ar ran eu sefydliadau. Ochr yn ochr â hyn, bydd grwpiau llywio partneriaid ehangach gan gynnwys gwasanaethau o fewn y Cyngor, yn cefnogi hwyluso'r Strategaeth ymhellach.



Plant a Phobl Ifanc

Erbyn diwedd pum mlynedd bydd mwy o blant a phobl ifanc yn gallu, ac yn penderfynu, defnyddio'r Gymraeg y tu allan i gatiâu'r ysgol ac mewn lleoliad cymdeithasol. Nodwch fod llawer o'r rhain yn cael eu hailadrodd o fewn y CSGA.

Y prif flaenoriaethau yw:

- hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg i gymuned ehangach Merthyr Tudful a chefnogi'r gwaith o weithredu'r CSGA;
- gwella'r ddarpariaeth a safonau'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg fel yr amlinellir yn y CSGA;
- datblygu cyfleoedd i blant a phobl ifanc mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg gysylltu'n gadarnhaol â'r Gymraeg y tu allan i leoliad yr ysgol;
- gwella cyfraddau dilyniant rhwng lleoliadau blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg;
- cynyddu'r ddarpariaeth o weithgareddau a chyfleoedd allgyrsiol cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc drwy weithio gyda phartneriaid; ac
- annog mwy o ysgolion i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol dwyieithog.

Targedau (gweler hefyd y CSGA)

- Erbyn 2025 bydd pob person ifanc yn gadael yr ysgol gyda chymhwyster yn y Gymraeg
- Erbyn 2027 bydd pob ysgol cyfrwng Saesneg wedi ennill y Wobr Aur Cymraeg Campus
- Erbyn 2027 bydd pob ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg wedi ennill Gwobr Aur y Siarter Iaith
- Erbyn 2027 bydd o leiaf 90% o blant yn trosglwyddo o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg

Y Gymuned

Erbyn diwedd pum mlynedd bydd gwelededd y Gymraeg yn y gymuned yn cael ei gryfhau a'i chefnogi.

Y prif flaenoriaethau yw:

- darparu cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd.
- cefnogi partneriaid i gynyddu gweithgareddau allgymorth a datblygu cyfleoedd i arddangos hanes a threftadaeth helaeth Merthyr yn yr iaith Gymraeg.
- cynyddu gwelededd y Gymraeg o fewn y Fwrdeistref Sirol i adlewyrchu'r gymuned Gymraeg drwy ddulliau cynllunio presennol i gynnwys twristiaeth a threftadaeth.
- cynyddu cyfleoedd i bobl dderbyn Gwasanaethau Gofal Iechyd a Chymdeithasol yn Gymraeg drwy weithredu'r Strategaeth Mwy na Geiriau.
- mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg a Menter Iaith Merthyr Tudful, darparu cyfleoedd i ddysgwyr yn y gymuned a'r awdurdod lleol ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol.
- ar y cyd â phartneriaid Menter Iaith Merthyr Tudful, Mudiad Ysgolion Meithrin, Dysgu Cymraeg Morgannwg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob digwyddiad sy'n digwydd ar draws y Fwrdeistref Sirol.



- drwy weithio ar y cyd â Gwasanaethau Llyfrgell Merthyr Tudful i ddarparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i'r gymuned.
- gweithio ar y cyd â'r holl bartneriaid Cymraeg i drefnu diwrnodau neu nosweithiau hwyl i'r teulu i ddefnyddio a mynd â'r Gymraeg allan i'r gymuned.

Targedau

- Cynllunio a chyflwyno o leiaf dau ddigwyddiad cymuned gyfan bob blwyddyn sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan bob partner
- Cynyddu nifer y digwyddiadau ar draws y Fwrdeistref Sirol sy'n cynnwys agwedd ar y Gymraeg neu ddiwylliant Cymru
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion ar draws y Fwrdeistref Sirol (busnesau, cartrefi gofal)

Y Gweithlu:

Erbyn diwedd pum mlynedd bydd mwy o bobl o fewn gweithlu'r Cyngor ac yn ehangach yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Y prif flaenoriaethau yw:

- sicrhau bod holl aelodau gweithlu'r Cyngor yn cwblhau o leiaf Cymraeg Lefel 2.
- sicrhau cydymffurfiaeth yn erbyn safonau'r Gymraeg ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- annog sefydliadau partner Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg i'r holl staff.
- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a sefydliadau partner.
- galluogi a chefnogi staff rhugl, yn ogystal â staff sy'n dysgu, i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, ac annog sefydliadau partner y Cyngor i fabwysiadu'r un dull.
- gweithio gyda Dysgu Cymraeg Morgannwg a Menter Iaith Merthyr Tudful i gynyddu nifer y staff sy'n gweithio yn y Cyngor sy'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg.
- ar y cyd ag ystod o bartneriaid yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg i bobl ifanc tra byddant mewn addysg, er mwyn iddynt allu datblygu eu sgiliau i gael gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg.
- sicrhau bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a busnesau ym Merthyr yn hysbysebu nifer cynyddol o swyddi lle mae'r Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd, a bod y gweithlu'n cael ei ystyried yn sefydliad dwyieithog.

Targedau

- Cynyddu nifer y staff sy'n gallu cyfathrebu'n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg gan 15%.



CAMAU I GEFNOGI STRATEGAETH Y GYMRAEG BUM MLYNEDD 2017 - 2022

Ym mis Gorffennaf 2017 lansiwyd Strategaeth y Gymraeg – #SHWMAERONMENT. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd cystadleuaeth gydag ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful i gynllunio logo ar gyfer y strategaeth. Mae'r logo bellach yn cael ei hyrwyddo ar draws y Fwrdeistref Sirol er mwyn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ac fe'i defnyddir mewn digwyddiadau wrth weithredu'r Strategaeth.

Gŵyl Solar – Ym mis Gorffennaf 2017 cynhaliodd Menter Iaith Merthyr Tudful ddigwyddiad Cymraeg - Gŵyl Solar i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ym Merthyr Tudful. Cymerodd pob partner iaith Gymraeg ym Merthyr Tudful ran yn y digwyddiad.

Fferm Folly - Ym mis Awst 2017 trefnodd Menter Iaith Merthyr Tudful ymweliad â Fferm Folly ar gyfer plant rhwng 3 a 15 oed a mamau ifanc â phlant bach.

Dysgwyr Cymraeg - Ym mis Tachwedd 2018 mynychodd grŵp o ddysgwyr Cymraeg o'r Cyngor ddigwyddiad Cymraeg yn Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan. Trefnwyd y digwyddiad "Llwybrau Llafar" gan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol yn benodol er mwyn i ddysgwyr Cymraeg ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd anffurfiol.

Clwb Dysgu Cymraeg Calfaria - Ym mis Ionawr 2019 sefydlwyd Grŵp Cymunedol Dysgwyr Cymraeg – Clwb Dysgu Cymraeg Calfaria. Cefnogir hyn gan y Cyngor ac mae'r grŵp yn cyfarfod bob nos Fawrth. Pwrpas hyn yw caniatáu i'r gymuned ddysgu Cymraeg mewn sefyllfa anffurfiol.

Diwrnod Shw'mae Su'mae - Ar 15^{fed} Hydref 2019, trefnodd y Cyngor ei ddigwyddiad 'Diwrnod Shw'mae Su'mae' cyntaf i hyrwyddo'r Gymraeg yn y Fwrdeistref Sirol. Roedd y digwyddiad yn canolbwyntio ar addysg cyfrwng Cymraeg gyda phlant o Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd-y-grug ac Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful yn cymryd rhan. Trefnwyd y digwyddiad hwn mewn partneriaeth â Chymraeg Byd Busnes, Menter Iaith Merthyr Tudful a Dysgu Cymraeg Morgannwg.

Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi - Yn 2020, cynhaliwyd digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi ar 2^{il} o Fawrth yn Y Coleg, Merthyr Tudful mewn partneriaeth â'r Coleg a Menter Iaith Merthyr Tudful. Mynychodd Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg gydag uwch aelodau etholedig. Bu plant o Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful hefyd yn cymryd rhan yn y digwyddiad.

Llyfryn Bod yn Ddwyieithog - Ym mis Gorffennaf 2020 sefydlwyd gweithgor i greu [Llyfryn Bod yn Ddwyieithog](#). Mae'r llyfryn marchnata hwn yn rhoi gwybodaeth a chynghor i rieni presennol a darpar rieni am y buddion a'r manteision o anfon eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n darparu gwybodaeth, o enedigaeth hyd at fod yn oedolyn, am sefydliadau yn genedlaethol ac yn lleol ar ble i gael adnoddau ac unrhyw gwestiynau ar addysg gyfrwng Cymraeg ac mae'n cynnwys dyfyniadau gan rieni a disgyblion o Ferthyr Tudful sydd wedi derbyn eu haddysg yn Gymraeg. Sefydlwyd grŵp o bartneriaid i greu'r llyfryn hwn gan gynnwys Menter Iaith Merthyr Tudful, Mudiad Ysgolion Meithrin a swyddogion perthnasol o'r Cyngor.



Diwrnod Shwmae Su'mae - Ym mis Hydref 2020, i adeiladu ar lwyddiant y Diwrnod Shwmae Su'mae blaenorol, trefnwyd digwyddiad mewn partneriaeth ag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg. Oherwydd y pandemig, cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein. Roedd y diwrnod unwaith eto'n hybu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithlu a'r teulu. Roedd y perfformiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn amrywio o 254 i 2.1 mil. Cafodd y digwyddiad sylw cadarnhaol ar y teledu hefyd.

Cyngerdd Carolau Cymraeg - Ar 17^{eg} Rhagfyr 2020, cynhaliwyd Cyngerdd Carolau Cymraeg ar You-Tube. Roedd eitemau gan y gymuned, staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac wyth ysgol. Cafodd y digwyddiad ei wyllo 1,332 gwaith.

#SHWMAERONMENT - Ym mis Mawrth 2021 trefnwyd digwyddiad #SHWMAERONMENT i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol o fewn teuluoedd, plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithlu, unwaith eto ar-lein oherwydd y pandemig parhaus. Dechreuodd y digwyddiad ar Ddydd Gŵyl Dewi a rhedodd dros dair wythnos lle dangoswyd ychydig o fideos pob dydd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd y digwyddiad 3.4 mil o weithiau gan y cyhoedd, o mor bell i ffwrdd ag America, Awstralia a gwledydd eraill. Cymerodd pob ysgol uwchradd, dau leoliad blynyddoedd cynnar a 12 ysgol gynradd ran yn y digwyddiad drwy ddarparu fideo yn hyrwyddo'r Gymraeg. Fel rhan o'r digwyddiad lansiwyd cystadleuaeth farchnata i bob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol i greu baner i hyrwyddo'r Strategaeth Iaith Gymraeg. Daeth y ceisiadau buddugol o Ysgol Uwchradd Pen y Dre, Ysgol Gynradd Gymunedol Abercannaid ac Ysgol Gatholig y Santes Fair. Roedd darllediadau teledu ar gyfer y digwyddiad hwn hefyd.

Digwyddiad Clwstwr Cynradd Cymraeg Ail Iaith Afon Taf - Ym mis Gorffennaf 2021 ar y cyd â'r Urdd, trefnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ddau ddigwyddiad gydag ysgolion cynradd clwstwr Ysgol Uwchradd Afon Taf. Trefnwyd gweithgareddau chwaraeon i roi cyfle i'r plant glywed a siarad yr iaith mewn lleoliad anffurfiol.

Diwrnod Shwmae Su'mae - I adeiladu ar lwyddiant digwyddiad Diwrnod Shwmae Su'mae 2020, trefnwyd dau ddigwyddiad ym mis Hydref 2021. Cynhaliwyd y rhain ym Mharc Cyfarthfa ar Hydref 16 a Chanolfan Hamdden Aberfan ar Hydref 17. Cyfrannodd plant o Ferthyr Tudful eitemau yn y digwyddiadau. Mynychodd rhwng 300 a 400 o bobl y digwyddiadau.

Tudalen Gyfrwng Cymdeithasol SHWMAERONMENT Ym mis Ionawr 2022, lansiwyd tudalen #SHWMAERONMENT. Mae hwn yn rhan o gynlluniau hyrwyddo a marchnata Strategaeth y Gymraeg a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau Cymraeg a gweithgareddau Cymraeg i blant a phobl ifanc ar y dudalen. Ar hyn o bryd mae 156 o ddilynwyr gyda'r llyfryn animeiddiedig dwyieithog wedi ei wyllo gan 3.2k.

Llyfryn Animeiddiedig Bod yn Ddwyieithog - Ym mis Chwefror 2022, addaswyd llyfryn Bod yn Ddwyieithog yr awdurdod lleol yn animeiddiad fel modd o farchnata addysg Gymraeg. Mae'n fideo dau funud sy'n crynhoi prif themâu'r llyfryn. Gweithiodd partneriaid ac Arweinydd Strategol y Gymraeg ar y cyd i greu'r animeiddiad.

Eisteddfod Clwstwr Cyfarthfa - Er mwyn cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, cefnogodd Arweinydd Strategol y Gymraeg gydag ysgolion clwstwr Cyfarthfa i drefnu Eisteddfod ym mis Chwefror 2022. Cyfrannodd bob ysgol clwstwr yn y digwyddiad trwy berfformio amrywiaeth o eitemau dawn, llefaru a chanu.

Cyngerdd Eisteddfod Clwstwr Pen y Dre a Chyfarthfa - Ym mis Mawrth 2022 trefnwyd cyngerdd clwstwr yn Theatr Soar ar gyfer buddugwyr eisteddfodau clwstwr Cyfarthfa a Phen y Dre. Perfformiodd enillwyr pob cystadleuaeth eu heitemau i rieni a ffrindiau a chyflwynwyd y digwyddiad gan bobl ifanc o Ysgolion Uwchradd Cyfarthfa a Phen y Dre.



Dysgwyr Cymraeg y Cyngor (canlyniad y Gweithlu) - Fel rhan o'r ddarpariaeth o gyfleoedd hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle, mae sawl swyddog wedi cymryd rhan yn y prosiect Cynllun Siarad / Speaking. Mae'r prosiect hwn yn helpu dysgwyr i fagu hyder wrth ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r amgylchedd gwaith, ac mewn sefyllfaoedd arferol bob dydd, er enghraifft megis cyfarfod am goffi a chinio. Maent yn cwrdd bron yn unrhyw le, cyhyd â'u bod mewn mannau cyhoeddus. Maent wedi ymuno â swyddog sy'n siarad Cymraeg, sydd wedi cytuno i ddarparu 10 awr o amser "un i un" gyda'r dysgwr dros gyfnod o 10 wythnos.

Gan weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg, mae'r Cyngor hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol parhaus i ddysgwyr wrando ac ymarfer eu Cymraeg, er enghraifft:

- Trwy grwpiau o ddysgwyr sy'n mynychu'r "Sioe Jonathan" ar S4C.
- Boreau coffi a digwyddiadau Nadoligaidd yn cael eu cynnal yng Nghanolfan Soar ym Merthyr Tudful.

Ar hyn o bryd mae 10 aelod o staff yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn dysgu Cymraeg ar y lefelau canlynol:

- Chwech ar lefel Canolradd 2
- Tri ar lefel Canolradd 1
- Un ar lefel Mynediad 1

Ar hyn o bryd, nodir bod 13 aelod o staff y Cyngor yn siaradwyr Cymraeg rhugl.



PARTNERIAID ALLWEDDOL**Menter Iaith Merthyr Tudful**

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn gweithio'n agos gyda'r ysgolion cyfrwng Cymraeg lleol er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar gyfleoedd celfyddydol cyfranogol o ansawdd uchel a phrofiadau diwylliannol. Prif nod y sefydliad yw hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Maent yn darparu ac yn cynnal ystod eang o gyrsgiau, gweithdai, perfformiadau, clybiau a chyfleoedd hamdden i blant, pobl ifanc, oedolion a theuluoedd eu mwynhau.

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful wedi'i lleoli yng Nghanolfan a Theatr Soar ym Mhontmorlais, Merthyr Tudful, canolfan Gymraeg a diwylliannol yng nghanol tref Merthyr. Er bod Canolfan Soar yn gartref i'r holl sefydliadau Cymraeg sy'n gwasanaethu Bwrdeistref Merthyr Tudful, mae Theatr Soar wedi galluogi'r Fenter Iaith i estyn allan i Gymuned ehangach Merthyr. Mae sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghanolfan a Theatr Soar yn cynnwys:

- Menter Iaith Merthyr Tudful – cyfranogiad cymunedol
- Lingo Soar Cyf. Gwasanaethau Cyfieithu Cymraeg
- Dysgu Cymraeg Morgannwg
- Urdd Gobaith Cymru – Gwaith ieuencid
- Mudiad Meithrin – Cylch Meithrin Soar
- Helo Blod – Defnydd iaith mewn busnes

Mae Menter Iaith Merthyr Tudful yn cynnig ystod eang o gyfleoedd gwirfoddoli a phrofiad gwaith i oedolion a phobl ifanc. Mae Canolfan a Theatr Soar yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned drwy gynnig amgylchedd diogel a chyfforddus lle gall pobl a theuluoedd feithrin cyfeillgarwch newydd ac ymuno â rhwydweithiau newydd sy'n ehangu gorwelion. Ystyri'r Gymraeg yn alluogwr sy'n cyfoethogi ein cymuned

Rhieni dros Addysg Gymraeg

Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru ac i sicrhau cyfle cyfartal i'r rhai sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Llyfrgell Gyhoeddus Merthyr Tudful

Mae gan y llyfrgell ddetholiad mawr o lyfrau Cymraeg neu ddwyieithog – mae llawer ohonynt â geiriau Cymraeg a Saesneg syml ochr yn ochr fel y gall rhieni ddechrau dysgu'r iaith ochr yn ochr â'u plant.

Llesiant Merthyr

Mae Llesiant Merthyr, neu Wellbeing@Merthyr (yr Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful gynt), yn gwmni elusennol dielw sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hamdden a diwylliannol ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Cymraeg i Blant

Mae Cymraeg i blant yn gynllun cenedlaethol sy'n cefnogi rhieni i ddilyn taith ddwyieithog drwy ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg i'w plentyn.



Mudiad Ysgolion Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn fudiad gwirfoddol a dyma brif ddarparwr gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol. Eu nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar brofiadau gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd, cylchoedd Ti a Fi a chlybiau ar ôl ysgol yn rhai enghreifftiau o'r math o leoliadau sy'n aelodau o'r Mudiad Meithrin. Mae 5 lleoliad blynyddoedd cynnar ym Merthyr.

Urdd Gobaith Cymru

Yr Urdd yw'r mudiad ieuencid mwyaf ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru, gyda dros 50,000 o aelodau. Mae 30% o'r holl siaradwyr Cymraeg yng Nghymru rhwng 8 a 25 oed yn aelodau. Mae gan yr Urdd 260 o staff, 100 o wirfoddolwyr, 900 o ganghennau, gyda 200 o ganghennau yn y gymuned. Yn ogystal, mae 150 o glybiau chwaraeon, sy'n cyfarfod yn wythnosol.

Nod Urdd Gobaith Cymru yw rhoi cyfle, drwy gyfrwng y Gymraeg, i blant a phobl ifanc Cymru ddod yn unigolion cyflawn, gan ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol a fydd yn eu galluogi i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r gymuned.

Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Mae Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful yn bartneriaeth gymunedol hirsefydlog sy'n gwasanaethu sir Merthyr Tudful. Y tri phrif ddarparwr dysgu yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr, Coleg Merthyr Tudful ac Addysg Oedolion Cymru. Yn ogystal â'r tri phrif ddarparwr, mae gan Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful sylfaen aelodaeth eang gyda chynrychiolaeth o Gymraeg i Oedolion, Canolfan Soar, yr Adran Gwaith a Phensiynau, y sector gwirfoddol, cymdeithasau tai, a darparwyr cymorth ar gyfer iechyd ac iechyd meddwl (e.e. MIND). Mae'r partneriaid hyn yn darparu ystod o gymwysterau achrededig a heb eu hachredu, dysgu anffurfiol, cymorth personol a chyfoedion, yn ogystal â chynghor ac arweiniad.

Mae darparwyr dysgu yn cynnig ystod eang o gyrsiau a chymwysterau, sy'n cynnwys y Gymraeg. Fodd bynnag, mae pob partner wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg hyd yn oed os nad ydynt eu hunain yn darparu cyrsiau iaith. Mae'n ofynnol i bob partner, drwy Fframwaith Arolygu Cyffredin ESTYN, hyrwyddo ac ymgorffori'r "Dimensiwn Cymreig". Mae hyn yn amrywio o gynnwys geirfa Gymraeg ar lefel isel mewn gwersi i ddarpariaeth ddwyieithog. Yn ogystal â hyn, bydd tiwtoriaid yn hyrwyddo'r "hunaniaeth Gymreig" gan gysylltu hyn â diwylliant, hanes a digwyddiadau.

Y Coleg, Merthyr Tudful

Y prif ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer pobl ifanc ym Merthyr Tudful, maent yn darparu addysg a hyfforddiant o gyrsiau Safon Uwch ôl-16, a chysiau galwedigaethol a phrentisiaethau, hyd at lefel prifysgol a chymwysterau proffesiynol, gan gynnwys Graddau Sylfaen, Cymdeithas Technegwyr Cyfrifyddu a TAR.

Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Ganolfan yn gorff cenedlaethol sy'n gyfrifol am bob agwedd ar y rhaglen addysg Cymraeg i Oedolion. Mae'n gweithredu fel corff hyd-braich oddi wrth Lywodraeth Cymru ac mae ganddo weledigaeth glir ar gyfer y dyfodol. Bydd y Ganolfan:

- yn sefydliad gweladwy sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion.
- yn darparu arweinyddiaeth i ddarparwyr Cymraeg i Oedolion.



- yn codi safonau mewn addysgu a dysgu mewn Cymraeg i Oedolion.
- yn datblygu cwricwlwm cenedlaethol deniadol, priodol ac o ansawdd uchel a chynhyrchu adnoddau sy'n addas ar gyfer pob math o ddysgwyr.

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ym Merthyr yw Dysgu Cymraeg Morgannwg Prifysgol De Cymru.

Mae Canolfan Dysgu Cymraeg Morgannwg yn siop un stop os ydych am ddysgu neu wella eich Cymraeg, gan ddarparu cyrsiau ar bob lefel ar draws yr ardal, gyda dewis eang o ddyddiau ac amseroedd. Bydd cyfleoedd i gwrdd â dysgwyr eraill mewn ysgolion dydd, cyrsiau bloc, boreau coffi, clybiau llyfrau, clybiau cinio a llawer mwy. Mae Prifysgol De Cymru yn darparu cyrsiau ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr ar ran y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful

Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful (neu Voluntary Action Merthyr Tydfil - VAMT) yw'r Cyngor Gwirfoddol Sirol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac mae wedi bodoli ers 1997. Mae gan VAMT aelodaeth o dros 250 o sefydliadau trydydd sector ac mae ganddo gysylltiad â dros 500. Mae VAMT yn rhan o rwydwaith Cefnogi Trydydd Sector Cymru (y TSSW) sy'n rhwydwaith o sefydliadau cymorth ar gyfer y trydydd sector. Ein nod cyffredin yw galluogi'r trydydd sector a gwirfoddolwyr ledled Cymru i gyfrannu'n llawn at les unigolion a chymunedol, nawr ac ar gyfer y dyfodol.

